

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 6ed 2015 yn Ffestri Glanrafon. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands (Cadeirydd), Eifion Davies, Alwyn Roberts, Gethin Morris, Gwenda Morris, Gary Thomas, Dewi Pritchard, a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Tina Davies, Iolo Evans, Maldwyn Jones, Alwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Gethin Morris ei fuddiant yng nghais cynllunio Coed y Foel Uchaf, Frongoch.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Archwilio'r mynwentydd.

Adroddodd y clerch bod y cynghorwyr wedi ail ymweld â'r mynwentydd ac wedi diogelu'r cerrig beddi perthnasol. Trafodwyd yr adroddiad a'r amcan bris i dorri'r coed ym mynwent Llanfor. I ddilyn y rheolau ariannol cytunwyd i ofyn am adroddiad a phris gan gwmni arall cyn gwneud penderfyniad.

Clirio llwybr cyhoeddus 'Stryd Pont Faen', Glanrafon.

Cafwyd cadarnhad bod y mater wedi cael ei anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd i ofyn a oedd posib cynnwys y llwybr ar restr gwaith y Bartneriaeth.

Cyfarfod y Bartneriaeth a Chyngor Gwynedd.

Yn dilyn y cyfarfod ym mis Mehefin i drafod yr her ariannol mae Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu trefnwyd cyfarfod pellach rhwng y Bartneriaeth a chynrychiolydd Cyngor Gwynedd ym mis Medi. Yn ystod y cyfarfod ceisiwyd i adnabod cyfleoedd lle y gall y cynghorau tref a chymuned gymryd rheolaeth o rhai gwasanaethau cyhoeddus.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar y 23ain o Fedi.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned fynychu un o'i nosweithiau 'Y Parc Cenedlaethol a'r Cynghorau Tref a Chymuned' yn ystod mis Tachwedd.

c) Cyngor Tref Y Bala

i) Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Tref yn mynegi eu pryder am ddiogelwch gyrwyr ar yr A494 oherwydd y gwartheg sy'n cael eu croesi ger Llanfor. Cytunwyd i anfon y mater ymlaen i'r Adran Gefnffyrdd.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio:-

C15/0517/04/LL - Codi tyrbin gwynt 30.5 m i'r hwb (ail gyflwyno cais a dynnwyd yn ôl). Coed y Foel Uchaf, Frongoch.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi'r cais oherwydd ei faint ac wrth ei ail leoli nid oedd mewn safle mor amlwg (Gethin Morris yn datgan diddordeb). Gofynnwyd i'r clerch gynghori'r adran cynllunio o benderfyniad y Cyngor.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/249A – Creu trac, ailwampio'r orsaf fedryddu a gosod offer monitor glawiad a gosod paneli solar.
Gorsaf Fedryddu Cynefail, Capel Celyn.

Materion Ariannol.

Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Medi a chafwyd yn gywir.

Swyddfa Archwilio Cymru Archwiliad Blynyddol.

Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori o'r newidiadau i drefniadau archwilio cynghorau cymuned a thref ar gyfer archwiliad 2015-16.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Clerc (Gorff - Medi)

Derbyniwyd cais ariannol gan Eisteddfod Llangollen. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

Gwrych yn gordyfu ar y ffordd rhwng pentref Llandderfel a Bethel.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i dynnu eu sylw at y gwrych a oedd yn tyfu allan i'r ffordd gyferbyn a Thŷ Isaf, Llandderfel.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Tachwedd 3ydd yn Neuadd Bro Derfel am
7.30 y.h.